



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Canterbury House**

**Canterbury House  
77 Heol Dyserth  
Y Rhyl  
LL18 4DT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad**

27 Medi 2022

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.**

*Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)*

*Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Canterbury House

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion gyda gofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	Akari Care Cymru Limited
Lleoedd cofrestredig	51
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	<a href="#">25 Ebrill 2019</a>
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol'

## Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus yn byw yn y cartref. Mae eu hanghenion gofal yn cael eu diwallu a'u hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y staff bob amser yn gwybod am unrhyw newidiadau. Mae'r darparwr yn mynd ati i chwilio am ffyrdd o wella'r gwasanaeth sy'n cynnwys y bobl, eu perthnasau a'r staff mewn penderfyniadau am y cartref. Mae staff hyfforddedig, polisïau a gweithdrefnau a chyfarfodydd rheolaidd â'r staff yn helpu i sicrhau bod y bobl yn cael gofal yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r staff yn cael eu cefnogi'n dda; maent yn mwynhau eu gwaith; mae'r bobl y maent yn eu cefnogi yn eu canmol am y ffordd y maent yn cyflawni eu rôl.

Mae gan y bobl ddewis o ran sut y gofelir amdanynt. Mae'r gwasanaeth yn darparu bwydlen lysieuol yn ogystal ag un sy'n cynnwys cig, ac mae'r ddwy yn darparu nifer o opsiynau bob amser bwyd. Gwelsom y bobl yn dewis ble i eistedd ac roedd y staff yn darparu ar gyfer hyn ac yn eu cefnogi i sicrhau eu bod yn gyfforddus. Mae'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn hapus eu bod yn gallu sgwrsio yn eu hiaith gyntaf â staff penodol gan gynnwys y rheolwyr.

Mae'r amgylchedd yn loyw, yn lân ac mae digon o le ynddo. Mae'r gerddi'n ddiogel ac yn darparu lle a chysgod i'r bobl eistedd ac i'r rhai sy'n ysmegu. Mae gwiriadau diogelwch rheolaidd, archwiliadau o systemau a phrosesau ac asesiadau risg unigol yn gwella diogelwch a llesiant y bobl a'r amgylchedd.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Maent yn dewis pryd y maent eisiau codi a mynd i'r gwely; lle maent yn treulio eu diwrnod; bethmaent yn ei fwyta, a ble, a pha weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt. Mae'r bobl yn dewis sut i osod gwedd bersonol ar eu hystafell ac mae'r teuluoedd yn cael eu cynnwys wrth hysbysu'r staff o'r hyn sy'n bwysig i'w perthynas. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr rheolaidd sy'n galluogi'r bobl i fynegi eu barn am gynlluniau arfaethedig ar gyfer y cartref, ac mae'r unigolyn cyfrifol sy'n cynrychioli darparwr y cartref yn gofyn am farn y bobl yn ystod pob ymweliad. Mae yna fwydlenni llysieuol yn ogystal â rhai sy'n cynnwys cig, pob un yn cynnig detholiad i ddewis ohonynt, a'r ddwy wedi'u cyflwyno yn Gymraeg a Saesneg.

Mae iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl bob amser yn cael eu monitro a cheisir gofal iechyd yn gyflym pan fydd angen. Mae cynlluniau personol y bobl yn fanwl, ac mae adolygiadau misol yn helpu i sicrhau bod cynlluniau'n cael eu diweddarau. Mae darpariaeth gofal yn cael ei chofnodi'n gywir pan gaiff ei darparu gan fod y staff gofal yn cario dyfais symudol ddigidol i fewnbynnu gwybodaeth o'r fath ar unwaith. Mae hyn yn helpu i nodi'n gynnar unrhyw anghenion gofal sydd eto i'w diwallu. Mae yna nyrsys cymwys ar y safle bob amser ac mae ymarferwyr gofal wedi'u hyfforddi mewn llawer o faterion gofal iechyd. Mae offer megis gwelyau addasadwy a matresi arbenigol yn cadw'r bobl yn ddiogel ac yn gyfforddus, ac mae'r coridorau eang yn caniatáu ar gyfer cadeiriau olwyn mawr.

Mae'r staff wedi'u hyfforddi ym maes diogelu ac mae hyn, ynghyd â'r polisïau gwasanaethau, yn cadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r rheolwr yn bresennol bron bob dydd ac mae'n hygyrch i'r staff pe baent yn dymuno siarad ag ef. Mae dirprwy reolwr yno hefyd. Dywedodd y staff wrthym ei bod yn hawdd siarad â'r rheolwr a'u bod yn teimlo y gwrandewir ar eu barn. Mae cyfarfodydd unigol aml rhwng y staff a'r rheolwyr yn rhoi cyfle i drafod arferion ac i godi unrhyw bryderon.

Mae'r llety'n gynnes, yn lân ac yn loyw ac mae digon o le ynddo. Mae'r ardaloedd cymunol yn darparu amrywiaeth o fannau ar gyfer amser tawel neu leoedd i gymdeithasu â'r preswylwyr eraill neu ymwelwyr. Gall y bobl fwynhau'r ardd ddiogel a bydd y cynllun i gael gwared ar y gwelyau blodau uchel presennol yn cynyddu'r gofod y mae'r ardal hon yn ei gynnig. Mae gan y cartref y cyfarpar, ac mae wedi'i addasu, i ddiwallu anghenion y bobl sydd yn byw yno ac mae'r bobl yn hapus.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n bodloni eu hanghenion gan fod cynlluniau gofal bob amser yn gyfredol ac yn gywir. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio system gofal personol digidol, ac mae'r holl staff yn cofnodi unrhyw gymorth a ddarperir ar ddyfeisiau llaw pan fydd yn digwydd. Mae'r ddyfais hon yn gyflym yn rhoi trosolwg i'r staff o'r person y maent yn ei gefnogi, yn sicrhau cofnod cywir ac yn hwyluso nodi'n brydlon unrhyw gamau a gollwyd neu gamau hwyr. Gwelsom asesiadau risg a chynlluniau personol yn cael eu hadolygu bob mis neu'n amlach os bydd anghenion y bobl yn newid. Mae gan y bobl ddewis am y rhan fwyaf o agweddau o'u diwrnod. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr rheolaidd fel y gall y bobl ddysgu am gynlluniau ar gyfer y cartref a dweud eu dweud. Mae'r fenter '*preswlydd y mis*' yn sicrhau bod pawb yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith y mis a gofynnir am farn perthnasau am y gwasanaeth.

Gwnaethom siarad â'r bobl a oedd yn canmol y staff, y gofal a'r bwyd. Cyfeiriodd un person at y staff fel y peth gorau am y gwasanaeth. Mae preswlydd arall yn siarad Cymraeg ac yn hapus bod yna staff sy'n siarad Cymraeg ag ef. Dywedodd, '*mae'n lle hyfryd yma*'. Gwelsom y staff yn ymgysylltu â'r bobl yn garedig ac yn amyneddgar. Gwnaethon nhw siarad â'r bobl tra'n eu cefnogi adeg prydau bwyd, gan wneud y profiad amser bwyd yn un dymunol, hamddenol. Gwnaethom siarad â gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld a ganmolodd y modd y mae gwybodaeth wedi'i threfnu'n dda; "*does dim byd yn cael ei gollu. Mae'r gwasanaeth yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon ac yn ymateb yn gyflym i unrhyw geisiadau am wybodaeth*".

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gael mynediad at ofal iechyd a gwasanaethau eraill i gynnal eu hiechyd a llesiant parhaus. Dangosodd cofnodion dystiolaeth fod y bobl yn cael adolygiadau o'u hanghenion iechyd; maent yn gweld eu meddyg teulu, gwasanaethau seiciatrig cymunedol, trin traed, a gwasanaethau eraill pan fydd ei angen arnynt. Dywedodd y gweithiwr proffesiynol sy'n ymweld wrthym fod y gwasanaeth yn gweithredu'n gyflym pan fydd gan y bobl broblemau gofal iechyd a'i fod yn rhagweithiol yn ei ddull o ddiogelu a chynnal iechyd a llesiant y bobl. Gwelsom fod y bobl yn cael offer i hybu eu symudedd; bod risgiau'n cael eu hasesu, a mesurau'n cael eu cymryd i sicrhau diogelwch y bobl trwy ddarparu offer a/neu newidiadau i'r ffordd y darperir gofal a chymorth. Mae llesiant meddyliol y bobl yn cael ei hybu trwy ddarparu gweithgareddau y maent yn eu mwynhau. Yn ddiweddar, cyflogwyd dau aelod o staff yn benodol ar gyfer rôl trefnydd gweithgareddau ac maent wedi dechrau rhaglen sy'n cynnwys celf a chrefft, therapi cerdd a therapi synhwyraidd. Mae'r bobl nad ydynt yn gallu cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn yn mwynhau tylino dwylo a chlywed y staff yn darllen iddynt neu'n sgwrsio am eu teulu a diddordebau eraill. Maent yn gwrandao ar gerddoriaeth ac mae'r darparwr yn bwriadu trefnu ymweliadau gan ddiddanwyr.

## Yr Amgylchedd

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod gofal a chymorth y bobl yn cael eu darparu mewn amgylchedd gyda chyfleusterau ac offer i hyrwyddo eu canlyniadau personol. Gwelsom gymhorthion megis teclynnau codi, cadeiriau olwyn, a gwelyau y gellir eu haddasu gyda matresi arbenigol i helpu i gadw'r bobl yn gyfforddus ac yn iach. Mae gan y bobl setiau teledu neu radios yn eu hystafell, ac maen nhw'n dod â'u heiddo personol eu hunain i wneud eu gofod yn fwy cartrefol. Gwelsom y bobl yn dewis ble roedden nhw eisiau treulio eu diwrnod, lle roedden nhw eisiau eistedd. Mae'r staff yn helpu'r bobl ac yn parchu eu dymuniadau. Gwelsom fod pob rhan o'r cartref yn ffres, wedi'u haddurno'n dda, yn loyw ac yn lân. Mae un rhan o'r adeilad wedi'i newid yn strwythurol i ddarparu lolfa fwy eang i'r bobl gymdeithasu ynddi.

Gwelsom y bobl yn eistedd yn yr heulfan yn sgwrsio ymhlith ei gilydd. Mae hwn yn edrych dros yr ardd sydd â nifer o welyau uchel ar hyn o bryd. Mae cofnodion cyfarfodydd yn dangos bod y preswylwyr wedi cytuno i gynlluniau a fydd yn newid yr ardal hon ac yn caniatáu mwy o le. Mae lloches i'r bobl eistedd ac ysmegu os dymunant. Mae cadeiriau a dodrefn i'w defnyddio a manteisio arnynt yn ystod unrhyw dywydd braf. Mae yna lolfa synhwyrdd gyda goleuadau ymlacio i hybu llesiant y bobl ac i helpu i'w tawelu a'u hymlacio. Mae'r profiad bwyta'n ddymunol gyda byrddau wedi'u gosod yn ddeniadol gyda lliain bwrdd a napcynnau. Gwelsom amserlenni glanhau ac archwiliadau; ym mis Chwefror 2022, dyfarnwyd sgôr hylendid bwyd lechyd yr Amgylchedd o bump i'r cartref, sef y gorau y gall fod. Mae gan un lolfa deledu â Wi-Fi fel y gall y bobl ddewis gwyllo ffilmiau yn ôl y galw.

Mae'r darparwr gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Gwelsom fod yr holl wiriadau diogelwch yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n rheolaidd o ran tân, diogelwch a thymheredd dŵr, offer, trydan a nwy. Mae cofnodion cynnal a chadw yn dangos bod unrhyw waith atgyweirio neu amnewid sydd ei angen yn cael ei nodi'n gyflym ac yn cael eu gwneud. Er mwyn hybu diogelwch wrth symud, gosodwyd canllawiau newydd yn y coridorau. Mae'r adeilad yn ddiogel gan fod angen i ymwelwyr lofnodi i mewn ac allan ac mae cloeon drws bysellbad i atal mynediad heb awdurdod. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau byw yn y cartref, eu bod yn gyfforddus ac yn hapus ar eu hystafelloedd a'r lle sydd ar gael iddynt.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth drefniadau llywodraethu da ar waith i gefnogi gweithrediad llyfn y gwasanaeth ac i sicrhau bod gofal a chymorth o ansawdd yn cael eu darparu. Mae'r rheolwr yn cynnal ystod gynhwysfawr o archwiliadau o'r holl systemau a phrosesau ac mae'r uwch staff yn helpu i sicrhau diogelwch ac effeithiolrwydd parhaus y gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis; mae'n siarad â'r preswylwyr a'r staff; mae'n archwilio cynlluniau gofal a chofnodion gweithwyr ac yn cynhyrchu adroddiad trylwyr o'i ganfyddiadau. Mae'r adroddiad yn cloi gyda champau ar gyfer gwelliant pellach ynghyd â dyddiadau cwblhau. Mae hyn yn dangos gwasanaeth sy'n awyddus i wella'n barhaus. Mae'r unigolyn cyfrifol hefyd yn cynhyrchu adroddiad ansawdd gofal sy'n amlinellu effeithiolrwydd systemau a phrosesau amrywiol. Gwelsom fod cwynion yn cael eu hymchwilio'n drylwyr ac yn wrthrychol. Mae'r rheolwr yn gwrando ar y bobl a'u perthnasau ac yn cymryd cwynion o ddifrif.

Mae'r bobl yn cael eu cynorthwyo gan wasanaeth sy'n darparu nifer priodol o staff sy'n ddigon cymwys ac sydd â'r wybodaeth a sgiliau i ddarparu'r lefelau o ofal a chymorth sydd eu hangen. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael arfarniadau blynyddol a bod cyfarfodydd un i un rheolaidd gyda'r rheolwr a gwelsom gofnodion yn cadarnhau hyn. Mae'r rheolwr hefyd yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r uwch reolwyr, felly mae'r darparwr yn cael trosolwg da o'r gwasanaeth ac unrhyw faterion. Mae'r rheolwyr yn buddsoddi yn ei staff, gan ddarparu cymhellion ariannol ar gyfer cwblhau hyfforddiant. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y cartref a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Canmolodd y staff y rheolwyr am fod yn hawdd mynd atynt ac am gwrando ar eu barn.

Mae'r staff yn cael eu hyfforddi mewn amrywiaeth o bynciau perthnasol i sicrhau bod ganddynt y sgiliau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol. Roedd y rotâu staff a'n harsylwadau ar ddiwrnod ein hymweliad yn dangos bod digon o staff wedi'u cyflogi i ddiwallu anghenion y bobl yn y cartref. Gwelsom fod y bobl yn cael sesiwn sefydlu gynhwysfawr i sicrhau eu bod yn gwybod popeth am sut mae'r cartref yn gweithredu. Mae'r staff yn rhyngweithio â'r preswylwyr mewn ffordd ddigynnwrf, hamddenol, mae cymorth yn dawe ac yn amyneddgar. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gweithio'n dda fel tîm a bod y *'rheolwyr yn gwrando arnom ni, a gallwn ni gynnig syniadau'*. Gwelsom fod prosesau recriwtio diogel ar waith; mae'r staff yn cael eu fetio'n briodol am addasrwydd.

Cynhelir archwiliadau aml a chynhwysfawr ar bob practis a system i sicrhau y nodir yn gynnar unrhyw feysydd sydd angen buddsoddiad pellach; Gwelsom fod y cartref wedi elwa ar waith ailaddurno, gwelliannau parhaus i'r tir a dodrefn newydd. Mae'r gwasanaeth yn falch o ddangos gwobr gan carehome.co.uk yn y cyntedd; mae hyn yn gosod y cartref ymhlith yr 20 uchaf yng Nghymru ar sail adborth gan y cyhoedd.

### Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
<b>Ni chyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

**Maes/Meysydd i'w Gwella**



Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol
66	Mae angen cryfhau systemau i oruchwyllo rheolaeth y gwasanaeth.	Cyflawnwyd
21	Diffyg gweithgareddau, cofnodion heb eu cwblhau'n llawn a diffyg cyfathrebu rhwng y staff.	Cyflawnwyd

**Dyddiad cyhoeddi 22/11/2022**